

Llais Llandyrnog Voice

✉ llandyrnognews@gmail.com 🐦 @LlaisLlandyrnog

Mehfin 2021 – Cyfrol 6 – Rhifyn 9

Cystadleuaeth bwganod brain MHC



Niall Kelly, prif weithredwr MHC (UK) Ltd oedd beirniad y gystadleuaeth, a dyma sut roedd o'n ei gweld hi:

1^{af}: Meithrinfa Ddydd Little Acorns – marchog (yn wreiddiol, wedi'i wneud yn dda ac wedi'i osod yn ei gyd-destun)

2^{il}: 16 Parc Tyn Llan – deifiwr sgwba (wedi'i wneud yn ardderchog ac yn dangos hiwmor)

3^{ydd} ar y cyd: Segwen – merch ar fwrdd syrffio, a Willow – beiciwr (yn unol â'r thema chwaraeon ac ymdrech ardderchog)

Canmoliaeth uchel: Swyddfa Alex House – pysgotwyr (y llun ar dudalen 4)



**Diolch i
Gyngor Cymuned Llandyrnog
am nodd i'r rhifyn hwn**

Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu'n hael at Llais Llandyrnog Voice dros y cyfnod clo. Bu'r cyfan yn help mawr i sicrhau parhau i gyhoeddi ein cylchgrawn a rhoi mwynhad i'n darllenwyr, yn ôl yr ymateb iddo.

Pytiau newyddion y pentre

Cydymdeimlwn â:

John Palin a'i deulu, Bwthyn Pentrefelin ar golli ei dad, Jim, o Sarn Mill, Nannerch a fu farw 30 Ebrill. Cafodd ei roi i orffwys yn Eglwys St Mihangel, Nannerch;

Eva, Mark, Sharon, a'u teuluoedd, ar farwolaeth Ossie Langford Jones. *"Thank you for all of the kind messages. We will miss him dearly but have many fond memories that we will cherish forever."*; ac

Emyr, Anwen a John Pen Isa'r Waen – Emyr yn ddiweddar wedi colli ei fam, Mrs Eluned Morris o Rhuthun.

Llongyfarchiadau i Glesni a Ryan, Tŷ Gerddi, ar enedigaeth eu mab, Efan Joseff, wŷyr cyntaf dwy ochr y teulu. Hefyd i Alex a Sophie, Llanrhaeadr ar enedigaeth eu merch, Penny Rose – wyres i Clive a Lorna, Nant Glyd.

Dymuniadau da i Menna Ellis, Gader Goch sydd newydd ddathlu pen blwydd arbennig.

Pob dymuniad da i James a Lucy a'r teulu yn eu cartref newydd. Diolchwn am eu gwasanaeth i'r gymuned yn ystod eu cyfnod yn y Kinmel – fe'i gwerthfawrogwyd yn fawr.

Dymunwn wellhad buan i Haydn Roberts yn dilyn ei arhosiad byr yn yr ysbyty. Hefyd anfonwn ein cofion at Nora Jones, gynt o'r Gilfach – hithau wedi cael cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

Mae Elwyn Evans, Ger y Llan, yn diolch yn fawr i bawb am eu cyfarchion, cardiau a chyfraniadau at elusen ar achlysur ei ben blwydd yn ddiweddar. Cafodd ddiwrnod i'w gofio!

Rhifau Ffôn Defnyddiol

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych
— 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan
i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

CPD Llandyrnog

Gemau cyn i'r tymor ddechrau

Bydd y gemau'n cael eu chwarae y tu ôl i ddrysau caeedig – am y tro.



Dydd Sadwrn, 5 Mehefin CPD Tref Llangollen gartref, cic gyntaf 2 o'r gloch

Nos Fercher, 9 Mehefin Tîm wrth gefn Dinbych, gartref, cic gyntaf 7 o'r gloch

Nos Fawrth, 15 Mehefin CPD Llanrwst gartref, cic gyntaf 7 o'r gloch

Dydd Sadwrn, 19 Mehefin CPD Caerwys oddi cartref, cic gyntaf 12 o'r gloch

Nos Fawrth, 29 Mehefin CPD Llanuwchllyn oddi cartref, cic gyntaf 7 o'r gloch

Capel y Dyffryn

Gwasanaethau mis Mehefin

06/06/21	9.45	Parch Dewi Morris
13/06/21	11.00	Parch Andras Iago
20/06/21	9.45	Gwasanaeth Bro – Zoom
27/06/21	9.45	Cyfarfod Gweddi



4 Kinmel Terrace, Llandyrnog

Locally bred and home-killed meat

Hours of business:

Monday — closed

Tuesday–Friday 8am–5:30pm

Saturday 8am–2pm

Deliveries daily throughout the area



Cyrsiau ymchwilio i hanes

Rydych chi eisoes wedi cael y newyddion da bod Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan wedi cael grant o bron i £10,000 i gasglu gwybodaeth am Landyrnog a Llangwyfan yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Os hoffech chi fod yn rhan o'r gwaith hwnnw, efallai y bydd gennych ddiddordeb yn y digwyddiad yng nghynnig Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych. Y bwriad yw cyflwyno ffynonellau hanes digidol a allai helpu'r ymchwil. Bydd y cyrsiau Dydd Gwener Digidol yn digwydd dros y misoedd nesaf mewn partneriaeth â Chymunedau Digidol Cymru, dros Zoom ac maen nhw'n rhad ac am ddim. Bydd y rhain yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer hel achau, ymchwilio i hanes eich cartref a.a.

Os oes gennych ddiddordeb, ewch i bit.ly/DF_HistoryResources i gael rhagor o wybodaeth neu i gadw'ch lle. Bydd y cwrs cyntaf 4 Mehefin, 10–11 y bore.

Dylai'r tractorau fod yn mynd trwy'r pentre tua 1 o'r gloch y pwnn – ond os hoffech chi eu gweld nhw, byddwch yn gynnar, rhag ofn! Byddan nhw'n mynd heibio'r Kinmel am groesffordd Clynog, i lawr i'r pentre ac wedyn yn ôl am y gylchfan ac yn troi am Ddinbych.

Sioe Rithiol Llandyrnog 2021

Mae'r rhan fwyaf o gartrefi'r pentre a'r cyffiniau wedi cael rhaglen y sioe erbyn hyn. Mae hefyd ar gael ar-lein rŵan, ynghyd â'r templed ar gyfer y gystadleuaeth addurno mwgwd. Os hoffech gopi papur o'r rhaglen, cysylltwch â'r ysgrifennydd, Roger Warner, yn Cross Keys, 07879 771461, neu anfonwch ebost at llandyrnogshow@gmail.com. Ewch ati i dynnu lluniau!

Oriau agor Swyddfa'r Post

Dyddiau Llun Mawrth, Iau, Gwener

9am–12pm, 3pm–5pm

Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30

01824 790310

Prompt Travel

Taxi & Private Hire

4, 8 & 16-seat vehicles
24 hrs 7 days a week

Incorporating Vale Private Hire

01824 790485

07974 862027

Teithiau Prydlon

Tacsi a Hurio Preifat



YSGOL BRYN CLWYD

Dosbarth y babanod

Yn ein thema dathlu, rydym wedi bod yn dysgu am fedyddio ac wedi gwneud 'baptingles', sy'n symbolau o'r agweddau gwahanol ar y seremonïau hyn.

Rydym hefyd wedi bod yn dysgu am losgfynyddoedd. Gwylio'r ffilm fer *Lava* y buon ni'n gyntaf, wedyn yn actio llosgfynyddoedd byw a chwsg. Fe gawson ni hwyl yn gwneud ein llosgfynyddoedd ein hunain o gwmpas yr ystafelloedd – yn tynnu llun, peintio, neu adeiladu ein llosgfynyddoedd eun hunain gan ddefnyddio Lego, tywod, a Play-Doh, hyd yn oed!

Cafwyd hwyl garw wrth wneud bara gyda Miss Elin, ac roedd ambell fynsen yn deilwng o fod ar y Great British Bake Off!

Y dosbarth iau

Rydym wedi bod yn darllen *Revolting Recipes* gan Roald Dahl ac yn ysgrifennu ein fersiwn ein hunain ar gyfer y dosbarth. Fe fuon ni'n profi ein syniadau ni a chafwyd ambell ganlyniad diddorol iawn!

Rydym wedi bod yn gofalu am y goeden fwya newydd ar dir yr ysgol, sef coeden geirios Beniyutaka a gawsom fel rhan o brosiect y goeden geirios Sakura. Mae dros 2000 o ysgolion yng Nghymru wedi cael coeden geirios o Japan, i ddathlu'r berthynas wresog rhwng y ddwy wlad.

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi anfon planhigion, hadau, bylbiau a.a. Mae'r plant wedi mwynhau eu plannu nhw o gwmpas yr ysgol a byddan nhw'n gofalu amdany'n nhw dros yr wythnosau nesa.

Rydym wedi dechrau'r arfer newydd o wneud prawf wedi'i amseru o'n ffeithiau mathemateg bob dydd. Y nod bob wythnos

yw curo sgôr yr wythnos flaenorol. Mae Mrs Lyon yn hynod falch o waith caled y plant ar eu Maths Mawr ac rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n gwella sgôr eu profion blaenorol.

Rhagor o newyddion

Mae ein Titw Tomos las wedi dodwy yn ein bocs adar. Trwy edrych ar luniau'r camera, rydym yn meddwl bod rhwng wyth a deg wy yn y nyth.

Mae Cyngor yr Ysgol wedi bod yn paratoi ar gyfer cyfarfod rhithiol gydag aelodau'r Corff Llywodraethu i drafod sut brofiad ydi bod yn ôl yn yr ysgol. Mae hwn yn gyfle i rannu barn y cyngor am y profiad o fod yn yr ysgol, ond hefyd beth allai ei wneud hyd yn oed yn well!

Mae'r ysgol wedi cael rhodd o lyfrau hyfryd sydd ar restr Darllen yn Well i Blant gan y Reading Agency. Mae'r llyfrau hyn wedi'u dewis a'u cymeradwyo gan arbenigwyr ym maes iechyd plant ac wedi'u cynhyrchu ar y cyd â phlant a theuluoedd. Thema pob un yw gwella lles emosiynol a meddyliol, ac mae'r ysgol yn diolch yn fawr am y cyfraniad.

Oherwydd nifer y disgyblion yn yr ysgol a phoblogrwydd ein clwb brecwast, rydym yn gallu rhoi lle i ragor o blant heb fod angen i rieni archebu lle. Gellir gollwng plant yn y clwb brecwast unrhyw bryd rhwng 8 ac 8.45y bore (ond mae brecwast yn gorffen am 8.30). Mae hwn yn wasanaeth hollol rad ac am ddim pryd bynnag y bydd ei angen ar rieni.

Cystadleuaeth bwganod brain MHC

Dyma gynnig Swyddfa Alex House – pysgotwyr, a gafodd ganmoliaeth uchel.



Hel meddyliau am 2020

Digon hawdd fyddai i ni i gyd edrych yn ôl ar 2020 a meddwl am flwyddyn ofnadwy. Blwyddyn i'w anghofio. Yn sicr buaswn i'n gallu dweud hynny. Collais aelod agos o fy nheulu, ffrind gorau, a phrofi gwir ystyr galar a hiraeth am y tro cyntaf, a hynny cyn i Corona fod yn ddim ond lager i mi. Mis yn ddiweddar-ach daeth y cyfnod clo ac erchyllterau'r feirws 'ma. Ninnau heb ddim byd i edrych ymlaen ato, dim cymdeithasu, popeth wedi ei ohirio. Dim sioe. Dim steddffod. Dau uchafbwynt bob blwyddyn ers i mi gael fy ngeni yn diflannu dros nos. Yna, ym mis Medi symud i fyw i Benrhyn-coch a chychwyn fy swydd gyntaf fel athrawes mewn ysgol uwchradd. Ysgol newydd mewn ardal newydd, ddieithr. Gorfod ymdopi â dysgu o bell, dysgu dan fwgan y feirws, y cyfarfodydd a'r cyrsiau i gyd ar-lein. Bywyd i gyd ar-lein. Ar fy mhen fy hun am y tro cyntaf, yn teimlo'n unig ar brydiau, ac yn hiraethu am deulu, ffrindiau a Dyffryn Clwyd.

Ond er gwaethaf hyn i gyd, roedd 2020 yn flwyddyn dda. Ces i amser i fod gartre ar y ffarm gyda fy nheulu, sydd ddim yn fêl i gyd os mai chi yw'r plentyn hynaf o bump! Mae bywyd ar ffarm yn fywyd prysur iawn a da o beth oedd hynny yng nghanol pandemig. Tra oedd y rhan fwyaf o'r wlad yn dod i stop, roedd rhaid dal ati i ffarmio. Ffarm laeth sydd gennym ym Mhen y Bryn a threuliaf lawer o fy amser yn y parlwr godro. Does dim yn well i glirio'r meddwl na sgwrs fach gyda'r Holsteins!

Nid yn unig i'r parlwr y bydda i'n dianc i gael llonydd ond i Fryniau Clwyd. Roeddwn yn gallu dianc i Benycloddiau heb dorri'r un rheol Corona! Does dim yn well i'r enaid gael llonydd na mynd i Benycloddiau, a gwerth-fawrogi'r golygfeydd godidog.

Ond yn amlwg, nid treulio amser gyda'r anifeiliaid neu yn crwydro ar ben fy hun yw'r tonig gorau bob amser. I sicrhau meddwl iach rhaid cael cydbwysedd. Fel athrawes Gwyddoniaeth, gwyddwn yn rhy dda fod y system nerfol yn system gymhleth a bregus iawn, gyda'r ymennydd yn rheoli'r llyw. Yn y system

mae cyfres o gemegau nerfol, ac mae cydbwysedd o'r cemegau hyn yn allweddol, yn union fel mae cael cydbwysedd cywir o fod ar eich pen eich hun neu yng nghwmni eraill yn bwysig.

Er bod amseru dechrau swydd newydd mewn ardal newydd wedi bod yn heriol, prin iawn mewn gwirionedd oedd yr adegau pan deimlais yn unig gan fod pawb mor gyfeillgar, gofalgwr a chefnogol. Roeddwn bob amser yn edrych ymlaen at fynd am dro gyda chyd-athrawon ar ddiwedd diwrnod ysgol, a chael siocled poeth a chacen unwaith yr wythnos. Mor bwysig cael 'bach o bach o hwne!' Mor braf oedd cael rhywbeth bach fel hyn i edrych ymlaen ato. Gwynt y môr yn fy ngwallt, cael chwerthin a dadansoddi profiadau a heriau'r diwrnod tra roedd yr haul yn machlud. Dwi'n ffodus iawn bod gen i ffrindiau oes yn Aber ac mi fyddai'r cyfnod wedi bod yn dipyn anoddach hebddynt.

Rhaid edrych ar 2020 yn bositif. Mae'r profiadau ges i yn y cyfnod wedi fy ngwneud yn berson cryfach yn feddyliol ac yn gorfforol. A dyna i mi ydi 'nerth dy ben'. Trawsnewid rhywbeth negyddol yn bositif, trawsnewid galar yn llawenydd, trawsnewid methiant yn llwyddiant. Edrych ar fywyd yn optimistaidd. Yn hytrach na meddwl am ffyrdd o osgoi 'iechyd meddwl', dylen ni i gyd feddwl am ffyrdd bob diwrnod i sicrhau 'meddwl iach', a chofio, i bob machlud mae 'na wawr!

Beth Mars Lloyd

Cyhoeddwyd yr erthygl hon ar wefan Nerth dy ben: www.nerthdyben.cymru



Tri lle

Pontgarreg, Llangrannog

Ymddeolodd Taid a Mamgu, rhieni fy mam, i Bontgarreg ger Llangrannog ar ôl rhedeg fferyllfa yn Llundain am dros 30 mlynedd. Pan oeddwn i'n blentyn, byddwn ni'n ymweld â nhw bob gwyliau ysgol. Mae gen i nifer o atgofion hapus o fynd yma ac acw i draethau a threfi Ceredigion gyda Mamgu'n gyrru'r Morris Minor. Yn aml, bydden ni'n cerdded y ddwy filltir i lawr i draeth Llangrannog gan nad oedd llawer o le i barcio yno. Treuliwyd oriau ar y traeth yn chwarae o gwmpas Carreg Bica, y graig amlwg yno, ac weithiau bydden ni'n cerdded ar hyd yr arfordir i Ynys Lochtyn (ym mhen draw'r llun ar y chwith).



Yng Nghwmttydu, gwyllo'r morloi oedd yn mynd â'n bryd a chwarae o gwmpas yr hen odyn galch. Roedd Cei Newydd, Aberteifi, Aberporth, Mwnt, Aberaeron ac Aberystwyth yn fannau poblogaidd hefyd.

Kleine Scheidegg, y Swistir

Bues i'n ddigon ffodus o gael chwe wythnos o waith yn teithio Ewrop yn 1982, yn ffilmio cyfres ar gyfer y sianel deledu newydd, S4C. *Elinor yn Ewrop* oedd enw'r gyfres, a'r Elinor oedd Elinor Jones. Uchafbwynt y daith honno oedd aros am noson yng ngwesty Bellevue des Alpes, Kleine Scheidegg, yn Oberland Bern, y Swistir. Mae'r gwesty 6,791 troedfedd uwchben lefel y môr, a'r cyfan sydd o'i gwmpas yw mynyddoedd yr Eigr, y Mönch a'r Jungfrau, a fawr ddim byd arall. Does dim ffordd yn mynd ato – dim ond gondolas, cadeiriau sgïo a threnau.

Adeiladwyd y gwesty yn y 19eg ganrif, a heddiw mae'r ystafelloedd wedi'u haddurno



a'u dodrefnu yn steil yr 1920au.

O Kleine Scheidegg, mae rheilffordd yr Jungfrau yn mynd â chi i'r Jungfrauoch, yr orsaf reilffordd uchaf yn Ewrop – 11,232 troedfedd uwchben y môr. Mae'r rheilffordd hon yn gamp anferth ym myd peirianeg, gan fod trac y trenau wedi'i adeiladu o fewn wyneb ogleddol mynydd Eiger, a chymerwyd 16 blynedd i'w gorffen. Pan fyddwch yn cyrraedd y copa, mae'r olygfa dros Rewlif Aletsch, rhewlif hiraf Ewrop – 22 km, a thu hwnt iddo yn anhygoel.

Brwsel

Am ychydig flynyddoedd, bydden ni'n mynd i ddinas am wylie byr adeg y Pasg. Wel, i ni sy'n byw yng nghefn gwlad, mae mynd i ddinas i ganol pobl yn antur fawr ac yn gyffrous iawn! Un o'r dinasoedd hyn oedd Brwsel ac fe fyddwn i'n argymhell ymweliad â hi yn fawr iawn.

Teithio ar yr Eurostar o St Pancras – ffordd wych a didrafferth i groesi'r sianel. Roedd y cysylltiadau ar y daith adre mor dda (a'r trê'n o Lundain i Ogledd Cymru ar amser, hyd yn oed), dim ond 9 awr oedd y daith o'r gwesty i stepen ein drws.

Mae pob peth ym Mrwsel, fel ym mhob dinas, a dweud y gwir, beth bynnag yw'ch diddordeb: pensaernïaeth ddiddorol – hen a newydd, amgueddfeydd, orielau celf, digonedd o siopau ffasiynol, adeilad Senedd Ewrop. Er mawr syndod i ni, doedd hi ddim mor ddrud â hynny yno – ond efallai bod hynny'n golygu bod prisiau wedi codi yma hefyd.

Ein hoff le ni oedd yr Atomium, canolfan

Tri lle: parhad

arddangos, a'r arddangosfeydd yn rhai dros dro ar themâu amrywiol. Cewch weld Brwsel i gyd o'r man uchaf ynddi. Hefyd gwnaeth Basilica'r Galon Gysegredig argraff fawr arnon ni. Autoworld ydy'r lle i fynd iddo i gael hanes y car modur.

Yn rhyfedd ddigon, mae cysylltiad fy nheulu â Brwsel yn mynd yn ôl i 1918. Llun o fataliwn fy nhaid yn gorymdeithio ym Mrwsel ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf yw'r un isod. Os dwi'n cofio'n iawn yr hyn a ddywedodd Taid, ei fataliwn oedd y cyntaf i fynd i'r ddinas ar ôl iddi gael ei rhyddhau o afael yr Almaenwyr.

Daeth fy nhaid adre'n fyw o'r rhyfel oherwydd iddo orfod mynd i'r ysbyty ym mis Awst 1918 ac erbyn iddo wella, roedd y cadoediad wedi'i arwyddo.

Dydw i ddim yn hollol siŵr a ydy Taid rywle yn y llun ai peidio, ond mae'n stori dda, beth bynnag.

Anwen Davies



Perygl bresych yr yd i gŵn



Erbyn hyn mae caeau ffermwyr wedi blodeuo'n flodau del melyn – caeau o fresych yr yd, rêp i ni ar lafar. Er y gallai tynnu llun hyfryd o'ch ci mewn cae o rêp fod yn demtasiwn, peidiwch byth â gwneud hyn!

Mae rêp yn wenwynig dros ben i gŵn os caiff ei lynu a gall achosi symptomau fel anemia, dallineb, anhwylderau treulio bwyd a phroblemau anadlu. Gall hefyd wneud niwed i'r system nerfol.

Peidiwch â cherdded trwy'r caeau hyn hyd yn oed. Clywyd sôn am gi a gafodd glwyfau agored difrifol ar ôl rhedeg trwy gae o rêp. Ewch â'ch ci at y milfeddyg ar unwaith os yw'n dangos unrhyw arwyddion o wenwyn rêp.

Nodyn gan y Cyngor Cymuned

Er ein bod yn deall bod y rhan fwyaf o bobl gyfrifol yn codi baw eu cŵn mewn bag, rydym yn apelio ar i bawb gael gwared ar y bagiau baw mewn ffordd gall, nid eu taflu dros wrychoedd i gaeau cyfagos. Mae hyn yn digwydd yn lled gyson yn ardal Llangwyfan.

Cofiwch eich bod yn cael rhoi bagiau baw ci mewn biniau sbwriel arferol. Petai cynnwys y bagiau hyn sy'n cael eu taflu i gaeau yn mynd i'r gadwyn fwyd, naill ai drwy anifeiliaid yn eu bwyta, neu'n mynd i fêls gwair ac wedyn yn cael ei roi'n fwyd i anifeiliaid, byddai'n gwneud niwed andwyol.

Rhywbeth i chi gnoi cil drosto, fel petai.



CARPET SUPPLY
Home Choose Carpets
FREE Estimates
CARPET FITTING
Own Carpets Fitted
Carpet Refitting Service
CARPET CLEANING
Call Andy
07900 907253
wetordrycarpetcleaning.com

Nodiadau o Blas Ashpool

Rydw i newydd glywed y gog eto, wedi gweld barcud coch yn hedfan dros Hendrerwydd – yr un cyntaf y tymor yma, a, diolch byth, wedi gweld y gwenoliaid yn dychwelyd i'n sguboriau. Roedden nhw mor hwyr eleni, roeddwn i wedi dechrau poeni amdanyn nhw, yn enwedig gan fod y tywydd wedi bod mor ofnadwy. Ar ôl misoedd Ebrill a Mai oer, gwlyb a gwyntog, does ond gobeithio y bydd pethe'n gwella dros y misoedd nesa. Yn ddiweddar roedd y gwenyn, wrth geisio cysgodi rhag y cawodydd trwm a'r taranau, yn llenwi'r sycamorwydden y tu ôl i'r tŷ. Roedd y sŵn yn anhygoel wrth iddyn nhw fod yn brysur ymhlith y blodau, yn hel cymaint o fwyd â phosib cyn i'r dilyw nesa ddod.

Maen nhw'n gweithio mor galed ac rwy'n obeithiol, wrth i ni ddod yn fwy ymwybodol o'u pwysigrwydd mewn cynhyrchu bwyd, y byddwn yn dysgu mwy am ba blanhigion i'w gadael fel eu bod yn cael digon o fwyd.

Rwy'n edrych ymlaen at weld y lleiniau o flodau gwyllt sydd wedi'u plannu o gwmpas Llandyrnog a Bodfari yn blodeuo. Ond dwi ddim yn hapus o gwbl o weld pa mor llym mae'r glaswellt wedi cael ei dorri a'r chwyn wedi'u lladd, yn enwedig o gwmpas Fferm y Geinas a'r Blue Hand, ac ar hyd y ffordd rhwng Bodfari a Threfnant. Alla i ddim deall pam mae'r glaswellt wedi'i dorri mor gynnar a pham mae'r chwyn wedi cael eu lladd o gwbl! Roeddwn i'n meddwl bod ymgyrch genedlaethol yn bod – 'No Mow May'? Oes gennych chi farn am hyn?

Bob gwanwyn, rwy'n gosod nod newydd ar gyfer yr ardd. Eleni, rwyf wedi penderfynu bod ein tiwlips yn rhy ddrud, er eu bod nhw mor brydferth! Petaen nhw'n dod yn ôl bob blwyddyn, fyddai hi ddim yn rhy ddrwg, ond fel arfer maen nhw'n marw ar ôl tymor (yn fy ngofal i, beth bynnag). Felly rwyf wedi penderfynu llenwi'r bwllch ar eu holau gyda blodau'r fagwyr. Maen nhw'n rhatach i'w tyfu

ac yn nhw'n haeddu lle gwell mewn unrhyw ardd gyda'u persawr hyfryd. Weithiau, maen nhw'n gwasgaru'u hadau os ydyn nhw'n cael llonydd, felly rwy'n mynd i geisio tyfu cymaint ag y galla i, ym mhob twll a chornel o'r ardd, er mwyn cael sioe hyfryd a phersawrus y gwanwyn nesa.

Mae'n dal i fwrw glaw a'r gwynt yn cryfhau, felly fydd 'na ddim garddio y pnawn ma. Yn lle hynny, mi orffenna i gyda'r dyfyniad hyfryd gan Oscar Wilde a anfonwyd ataf gan fy merch.
*With freedom, flowers, books and the moon,
who could not be perfectly happy?*
Mwynhewch y garddio,
Fiona Bell

Yn rhad ac am ddim...



... i gartre da. Cysylltwch â Fiona ar
07813087797

James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd

james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa Westminster: 0207 2194606

Teyrnged: Olwen Roberts

Rydym yn diolch i bawb yn Llandyrnog a'r cyffiniau am bob cydymdeimlad, teyrnged ac atgof a rannwyd â ni ers i'n mam, Olwen Roberts, farw'n dawel ar 14 Ebrill a mynd at ei hannwyl wŵr, Jack. Mae eich cefnogaeth a'ch negeseuon wedi bod yn ysgubol – pawb â negeseuon ac atgofion hyfryd am Mam – fe fyddai wrth ei bodd.

Bu ein rhieni, Olwen a Jack yn byw yn 29 Maes Clwyd ers iddyn nhw briodi. Roedden nhw wrth eu boddau yn y pentref ac yng nghanol bron iawn pob peth a oedd yn digwydd. Doedd Mam ddim yn hoff o neb yn ffysian drosti ac roedd hi bob amser yn garedig, ac yn helpu ac annog pawb. Roedd hi mor feddylgar ac anhunanol ac roedd ei charedigrwydd yn golygu cymaint i bobl, er nad oedd hi'n gwybod hynny.

Buon nhw'n gofalu am neuadd y pentre am flynyddoedd lawer. Mae gennym atgofion hapus am helpu i osod y byrddau i chwarae chwist neu'r rhwydi i chwarae badminton.

Roedd hi'n gefnogwr triw i Glwb Pêl-droed Llandyrnog a byddai'n gwyllo Stewart yn chwarae yn unrhyw dywydd. Unwaith, fe ofynnwyd i Mam sut gêm oedd hi. Ei hateb hi oedd, 'Roedden nhw'n chwarae'n arbennig o dda ac fe ddylen nhw fod wedi ennill ond yn anffodus fe gollon nhw 7-0'. Fe barhaodd Mam i gefnogi'r clwb am gyfnod hir ar ôl i Stewart roi'r gorau i chwarae. I gydnabod ei chefnogaeth, fe gafodd ei gwneud yn Llywydd Anrhydeddus y clwb.

Roedd hefyd ar bwyllgor cangen leol Mencap, gan helpu i drefnu'r partïon Nadolig enwog yn neuadd y pentref am flynyddoedd. Roedd Mark ac eraill wrth eu boddau efo'r rhain.

Fe fu hi'n rhoi gwasanaeth cymorth cartref am nifer o flynyddoedd, ac yn gofalu am Mark a'i theulu mawr o 8 o blant, 16 o wyrion ac 18 o orwyrion. Roedd hi'n eu caru nhw bob un a phob un yn ei charu hithau hefyd.

Pan oedden ni yn ein harddegau, roedd hi'n



barod iawn ei chymwynas gyda chaffi Jack (fel roedd Stew yn ei alw) ac ar agor bron bob penwythnos ar ôl i'r tafarnau gau.

Fel nain, roedd hi yno bob amser i'n croesawu ni i'r tŷ, gan gynnig fferins a bisgedi di-ri. Byddai'n plant ni yn mwynhau rhedeg o gwmpas a chwarae gydag ornaments a ninnau'r oedolion yn eistedd gyda phaned a bisged i gael sgwrs am newyddion y pentre. Roedd gan Nain rywbeth i'w ddweud wrthon ni bob amser neu rywbeth i holi amdano a byddwn yn gweld eisiau'n sgysiau'n fawr iawn. Roedd hi'n agos iawn at ei chwaer, Anti Dil, a'i nai a'i nithoedd, a bydden nhw'n cysylltu â hi'n rheolaidd.

Cyn gorffen, rhaid i ni ddiolch yn arbennig i ffrind agos mam, ei chwaer yng nghyfraith a'n modryb ni, Sylvia Evans. Ers blynyddoedd lawer mae hi wedi dod at Mam i gael paned a bisged, a galw fin nos am Baileys neu ddiod fach o wisgi. Diolch.

Mae'n anodd enwi pawb a diolch am eu cefnogaeth, felly dyma ddiolch i Landyrnog fel pentre am bob peth. Byddwn yn gweld eisiau Mam yn fawr.

Cafwyd cyfanswm o £574 o roddion er cof am Olwen, a rannwyd rhwng clwb y Gateway yn Ninbych (Mencap) ac Ambiwylans Awyr Cymru.

Mel Roberts

Gair gan y Rheithor

Tybed sawl gwaith rydych chi wedi gyrru heibio Cofeb y Cyfieithwyr ar dir Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Bydd rhai yn gyfarwydd â'r gofeb ac yn adnabod y bobl a enwir arni. Efallai fod eraill wedi gyrru heibio, heb sylwi arni. Mae'r gofeb er anrhydedd i'r dynion a oedd yn ganolog wrth gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg. Beibl William Morgan yw'r mwyaf adnabyddus o'r holl gyfieithiadau cynnar. Aeth William Morgan ati i gyfieithu'r Beibl ei hun dros gyfnod o ddeng mlynedd, 1578–1588, wrth weithio fel offeiriad plwyf prysur ym mhentref Llanrhaeadr ym Mochnant. Cafodd y Beibl ei argraffu yn Llundain a threuliodd William Morgan flwyddyn yn goruchwylio'r gwaith gan nad oedd yr argraffwyr yn deall Cymraeg. Yn ystod yr amser hwn, arhosai gyda Gabriel Goodman, Deon San Steffan – mae yntau ar y gofeb hefyd.

Dynion lleol oedd y cyfieithwyr a aeth ati i gyfieithu'r Beibl i'w mamiaith yn y dyddiau pan oedd Beiblau naill ai mewn Lladin neu Saesneg. Cyn y diwygiad, byddai'r Beibl yn cael ei ddarllen mewn Lladin yn unig. Ar ôl y diwygiad daeth cyfieithiad Saesneg ar gael ond roedd hwn yr un mor annealladwy i Gymry uniaith Gymraeg y cyfnod hwnnw.

Clerigwyr oedd y rhan fwyaf o'r cyfieithwyr, tri ohonyn nhw'n Esgobion Llanelwy. Roedden nhw'n deall bod angen i bobl glywed y Beibl yn eu mamiaith. Adleisiodd William Morgan eu teimladau pan ddywedodd, 'Bydd crefydd, os na chaiff ei dysgu yn y famiaith, yn gorwedd yn gudd ac yn anhysbys.'

Cwblhawyd y gofeb yn 1892 i nodi 300 mlynedd ers cyhoeddi Beibl William Morgan, a gyhoeddwyd gyntaf ym 1588 – yr un flwyddyn ag Armada Sbaen.

Eleni rydym yn nodi 400 mlynedd ers i Edmwnd Prys osod y Salmau yn Gymraeg (1621). Ysgrifennwyd ei osodiad ar ffurf fydryddol er mwyn eu canu'n hawdd yn yr Eglwys. Dathlodd yr Eglwys yng Nghymru waith Edmwnd Prys ar 15 Mai. Mae'r tîm addysg o Esgobaeth Llanelwy wedi dathlu'r

garreg filltir hon gyda gwasanaeth arbennig i ysgolion lleol. Mae'r gwasanaeth ar gael ar wefan yr esgobaeth: dioceseofstasaph.org.uk.

Roedd mwyafrif y cyfieithwyr yn dod o Ogledd Cymru ac mae'r effaith gadarnhaol a gawson nhw ar y Gymraeg yn anfesuradwy.

Yr wyth enw ar y gofeb a'u man geni:

- ✚ William Morgan – Tŷ Mawr, Wybrnant
- ✚ Gabriel Goodman – Rhuthun
- ✚ Edmwnd Prys – Llanrwst
- ✚ John Davies – Llanferres
- ✚ Richard Parry – Cwm, Sir y Fflint
- ✚ Thomas Huet – credir ei fod wedi'i eni yn Sir Frycheiniog
- ✚ William Salesbury - Llansannan

Mae pen ucha'r gofeb mewn siâp llusern, i'n hatgoffa o eiriau Salm 119: 105: Y mae dy air yn llusern i'm troed ac yn oleuni i'm llwybr.

Credir mai dim ond 19 copi o gyfieithiad gwreiddiol William Morgan sy'n dal i fodoli. Mae un yn cael ei gadw'n ddiogel yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Ewch i gael cip arno y tro nesaf y byddwch chi yn y cyffiniau.

Gyda phob bendith,
Val Rowlands



Taith fach ddiddorol

Mynd am dro i ardal Llanrhaeadr wnawn ni y tro yma, o gwmpas yr eglwys a Ffynnon Dyfnog ac efallai i fyny at Bryn Morfydd – mae fyny i chi pa mor bell dach chi awydd mynd ond faswn ni ddweud mai rhyw awr a hanner ar y mwya wnaiff e gymryd.

Parcio rhwng y Lodge a'r Kings Head ydi'r syniad gorau a cherdded tuag at y Kings Head, fydd ar y dde i chi.

Y Kings Head

Tafarn lle roedd y goets yn galw ers talwm ydi'r King's Head ac mae'n dyddio yn ôl i'r unfed ganrif ar bymtheg. Efallai wir eich bod wedi ystyried, fel dwi wedi'i wneud, pam mae'r adeilad gymaint is na lefel y ffordd?

Ar un adeg mae'n debyg bod rhyd yn croesi'r ffordd yma a bod yna risiau i fyny at y dafarn. Ond rywbryd yn y gorffennol pell, penderfynwyd lefelu'r ffordd oherwydd ei bod hi'n anodd i geffylau a throliau ddringo'r allt serth.

Y gred ydi bod yna wedd o geffylau yn cael eu cadw yn Stabal y Wlad – neu Cwt yr Hers fel fase rhai yn ei galw – yr adeilad lle cedwir yr elor. Mae hwn gyferbyn â phorth y fynwent erbyn hyn, drws nesa i'r efail sydd bellach yn grochendy llwyddiannus. Defnyddiwyd y wedd yma i roi cymorth i lusgo'r goets a'r teithwyr i fyny'r allt serth.



Yr elusendai

Efo'r efail sydd bellach yn grochendy ar y dde i chi a'r eglwys sydd ar y chwith, anelwch ar i fyny ac mi welwch adeilad eitha crand gwyn

o'ch blaen – dyma'r elusendai.

Jane, gweddw Maurice Jones o Blas Llanrhaeadr, ddaru ariannu'r rhain yn 1729 – mae ar siâp H efo un bwa mawr a oedd yn fynedfa yn wreiddiol i wyth uned un ystafell, efo iard ganolog. Dyma gartref pobl anghenus y fro. Bellach mae wedi'i addasu i fod yn bedair uned, ond ar gyfer yr un dibenion.

Ffenest Jesse

Trowch i mewn i'r Eglwys – dwi ddim am sôn rhyw lawer am yr Eglwys ei hun, dim ond dweud ei bod hi'n berl o Eglwys ac mae cyfeiraid ati yn Nhrethi Eglwysig Norwich 1254. Ond mi fydd yn rhaid i chi fynd i weld y ffenest Jesse.

Mae hon yn wynebu'r Llan, ac yn un o'r enghreifftiau gorau yng Nghymru os nad yn Ewrop o'r math yma o ffenestr – mae'n dyddio'n ôl i 1533. Cafodd ei diogelu rhag milwyr dinistriol Cromwell yn ystod y Rhyfel Cartref 1642–1646 drwy ei thynnu allan a'i chuddio. Cafodd ei hailosod yn llawer mwy diweddar.

Ar hyd gwaelod y ffenestr fe welwch ddelwedd o Jesse, un o Dylwyth Jiwdea, yn gorwedd efo coeden ddychmygol yn tyfu o'i frest a delweddau o ddisgynyddion Crist ar ganghennau'r goeden honno

Ffynnon Dyfnog

Ewch i mewn i'r goedlan a throi ar y dde ac mi ddowch at Ffynnon Dyfnog sydd, diolch i wirfoddolwyr Gymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr, wedi denu nawdd sylweddol gan y Loteri Genedlaethol i adfer y ffynnon a'i hagor i'r cyhoedd unwaith eto.

Sefydlodd Sant Dyfnog gell fechan yma yn y 6ed ganrif – mae'n debyg mai adeilad pren fase'r gell wreiddiol nid nepell o'r Ffynnon. Mae'n debyg y byddai'r Sant, fel penyd iddo'i hun, yn sefyll o dan raeadr o ddŵr oer gan wisgo crys rhawn a gwregys o gadwyn haearn.

Mae'n debyg bod Dyfnog wedi bendithio'r dŵr ac i hynny ei liwio, ond dywed Frank Price Jones yn ei lyfr, *Crwydro Gorllewin Dinbych*,

Taith fach ddiddorol: parhad

fod yna hen stori yn yr ardal mai Clerigwyr y Llan oedd yn rhoi manus neu liw yn y nant wrth Graig Lwyd er mwyn gwneud 'gwyrth' yn y Llan. Mae'n debyg mai afon danddaearol sy'n rhedeg i'r ffynnon – mae fyny i chi pwy dach chi'n gredu!



Ond yn sicr yn yr oesoedd canol, tyrrai pererionon yma oherwydd iddyn nhw gredu bod gan y dŵr yn gallu gwella'r frech wen, mudandod, byddardod, clefyd crafu a chosi.

Mae angen dymuno'n dda i'r gwirfoddolwyr triw fydd yn sicrhau parhad i'r ffynnon ac mi ddaw â nifer fawr o ymwelwyr i'r ardal.

Mi fyddwch rŵan wedi cyrraedd pen ucha'r goedlan hyfryd yma ac er bod yna lwybr eitha byr ond serth o'r pen ucha i'ch cysylltu efo'r ffordd rhwng Llanrhaeadr a Prion, faswn ni ddim yn argymhell i chi wneud hynny oni bai eich bod yn hyderus ar lwybrau anwastad – mae mor hawdd cael niwed.

Os ydych am ddychwelyd i Lanrhaeadr i gael paned yn y Lodge, well i chi ddilyn y llwybr yn ôl at yr eglwys. Os hoffech chi barhau â'r daith, ewch i fyny'r llwybr serth o'r ffynnon, tuag at y ffordd ffordd sy'n mynd tuag at Brion. Cymerwch y troad cynta ar y chwith sy'n eich arwain tuag at Bryn Morfydd.

Bryn Morfydd

Mae'n debyg bod yr enw gwreiddiol yn ymddangos ar hen fapiau fel Bryn Morwydd – *mulberry* yn Saesneg. Mae hyn yn gwneud mwy o reswm na Morfudd, rywsut, ond tybed a oedd yna goed morwydd yma?

Neu ydi'n haws derbyn mai Bryn Mawr Wydd ydi'r enw gwreiddiol gan fod yna nifer o

goed uchel iawn yma – dyma ddehongliad Frank Price Jones.

Os wnewch chi gerdded ar hyd y lôn yma am dipyn, mi ddowch at arwydd llwybr cyhoeddus digon clir ar yr ochr chwith. Arhoswch am funud fan hyn, i gael eich gwynt atoch ac i edrych yn syth yn eich blaen.

Mi welwch chi ffensys diogelwch i gadw pawb allan o Bryn Morfudd, Bryn Morwydd neu Bryn Mawr Wydd – ond ta waeth beth bynnag ydi'r enw, tydio ddim yna bellach. Mae'r adeilad crand oedd yn gartref i rai o fonheddwyr yr ardal yn wreiddiol, wedyn yn gyrchfan boblogaidd i briodasau, dawnsfeydd a.y.b. yn y 60au hyd at 80au, bellach wedi ei chwalu ers tua dwy flynedd. Sawl priodferch gafodd dynnu lluniau â Bryniau Clwyd yn gefndir hyfryd, sawl cwpwl ddaru gyfarfod yn y dawnsfeydd gwyllt oedd yno yn yr 80au a chan ei bod yn llawn yna mewn drwy ffenest amdani!

Mae yna deulu nid anenwog am gynhyrchu seidr yn ceisio neu efallai wedi sicrhau caniatâd cynllunio i godi nifer o gabanau gwyliau moethus ar y safle, tebyg iawn i beth sydd ganddynt yn Traeth Llydan, Rhoscolyn. Alla i ddim ond cymharu, ond os bydd y datblygiad yn Llanrhaeadr unrhyw beth yn debyg i'r hyn maent yn ei gynnig yn Rhoscolyn, mi fydd o safon aruthrol o uchel. A dyna ydi'r duedd y dyddiau yma, yn de? Gwyliau nes adre – a pha le gwell i enaid gael llonydd na'r llecyn hyfryd yma.

I fynd am adre rŵan, ymunwch efo'r llwybr sydd yn ffinio coedlan hyfryd nes dod at gamfa. Ewch dros y gamfa ac mae'r llwybr yn gwyro rhyw 'chydig i'r chwith. Ond mae'n ddigon hawdd ei ddilyn hyd at giât lydan fetel sydd i'w gweld yng ngwaelod y cae. Trowch ar y chwith fan yno ac yn ôl i'r ffordd sy'n arwain o Lanrhaeadr i Prion. Lôn breifat ydi hon ond mae'n llwybr cyhoeddus, felly does dim rhaid poeni.

Gobeithio y gnewch chi fwynhau'r daith.

Bryn Davies

Bywyd gweithgar

Mae John Evans, a gafodd ei eni a'i fagu yn Llandyrnog, yn dal i fwynhau *Llais Llandyrnog Voice* bob mis. Erbyn hyn, mae'n byw yng Nghynwyd ond mae ganddo deulu yn y pentre o hyd.

Ganwyd John yn Llandyrnog yn 1932 a byddai'n mynd i'r ysgol Sul yn ifanc iawn. Cafodd fedydd esgob yn Eglwys Dewi Sant yn Ninbych yn 1948 gan Arglwydd Esgob Llanelwy. Mae'n cofio rheithoriaid Llandyrnog yn dda, yn enwedig y Parchn W.T. Williams ac Eric Pritchard. Parhaodd John i fod yn aelod gweithgar o Eglwys St Tyrnog nes iddo briodi yn 1957. Wedyn aeth John i fyw i Gynwyd ac mae wedi bod yn weithgar yn yr eglwys honno hefyd, gan ddal sawl swydd ynddi.

Mae John wedi bod yn Arweinydd Addoliers nifer o flynyddoedd. Heb gefnogaeth ei wraig, y mae'n briod â hi ers 63 o flynyddoedd, mae John yn credu na fyddai wedi bod yn bosib iddo wneud cymaint o waith dros yr Eglwys a'r gymdogaeth.

Ynghyd â'i waith i'r Eglwys, mae John wedi bod yn aelod ac yn swyddog yn y rhan fwyaf o gymdeithasau yng Nghynwyd, gan gynnwys bod yn aelod o Gyngor Cymuned Cynwyd am 54 o flynyddoedd, ac yn gadeirydd am sawl blwyddyn.

Cafodd cyfraniad John i'r Eglwys ei gydnabod yn 2015 pan gyflwynodd yr Esgob Gregory Urdd Llanelwy iddo yng Nghynhadledd y Ddeoniaeth yn Llangollen.



Rysait

Cawl panas blas cyrri

- 1 nionyn/winwnsyn mawr
- 1 daten fawr, wedi'i thorri'n fân
- 2–3 panasen, yn dibynnu ar eu maint, wedi'u torri'n fân
- 1 llwy de powdwr cyrri
- 2 beint o stoc cyw iâr
- Menyn ac olew i ffrio

Ffriwch y nionyn dros wres isel mewn menyn ac ychydig o olew, ac ychwanegwch y tatws a'r panas.

Gadewch y rhain i ffrio am ychydig, wedyn ychwanegwch ryw lond llwy de o bowdr cyrri. Trowch y cyfan am ychydig, wedyn ychwanegwch y stoc cyw iâr.

Mudferwch y cymysgedd nes bod y llysiau wedi meddalau, wedyn ei hylifo mewn unrhyw ffordd o'ch dewis chi. Does dim rhaid i'r cawl fod yn hollol lyfn. Dwi'n blendio'r cawl yn y sosban gyda blendiwr llaw.

Rhowch ychydig o halen a phupur neu ragor o bowdr cyrri ynddo yn ôl eich dant chi, ac ychydig rhagor o stoc os yw'r cawl yn rhy drwchus.

Rosemary Griffiths

Townsend Supplies

**Townsend, Denbigh LL16 3AW
01745 814918**

**For all farmyard & agricultural
accessories & building supplies**

- ☒ **Tanalised timber**
- ☒ **Concrete posts**
- ☒ **Panel fencing**
- ☒ **Water pipe fittings**
- ☒ **Water tanks**
- ☒ **Sand**
- ☒ **Cement**
- ☒ **Concrete blocks**

Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Mai y Cyngor Cymuned

- ◇ Cafwyd adroddiad bod rhywun am brynu safle Arla a bod y broses o werthu bron wedi'i chwblhau.
- ◇ Mae'r Cyngor wedi cael iawndal gan Lywodraeth Cymru am golli incwm oherwydd bod yr Ystafelloedd Coco wedi'u cau yn ystod y cyfnod Covid. Penderfynwyd neilltuo'r rhan fwyaf o'r arian ar gyfer cynnal a chadw'r ystafelloedd, ond hefyd y dylai'r rheini sy'n eu defnyddio ar gyfer boreau coffi a chodi arian hefyd yn cael rhan o'r gronfa hon, sef y Tuesday Club, Sefydliad y Merched, y Trefoil Guild, y Brownies, Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan, Cymdeithas Chwaraeon a Phêl-droed Llandyrnog, Llan Llanast, Capel Dyffryn, Eglwys St Tyrnog, y grŵp seryddiaeth, y grŵp pwytho, y grŵp crefftau, y clwb llyfrau, Undeb y Mamau, a Chynghrair Pêl-droed y Gaeaf.
- ◇ Cafwyd rhybudd gan y Cyngor Sir ei fod yn bwriadu gwella'r draeniau yn ardal y Gables ac o groesffordd Llangwyfan hyd at faes parcio Moel Famau.
- ◇ Cafwyd llythyr gan Llais Llandyrnog i ddiolch i'r Cyngor am gyfraniad tuag at gostau argraffu'r cylchgrawn a gan Eglwys St Tyrnog i ddiolch am y cyfraniad tuag at gynnal a chadw'r fynwent.
- ◇ Mae'r Cyngor Cymuned wedi gofyn i'r Cyngor Sir ystyried gosod rhagor o oleuadau o gwmpas yr Hwylfa a maes parcio Maes Llan, ond heb gael ateb hyd yn hyn.

- ◇ Mae'r Cyngor Sir yn mynd i rhoi blaenoriaeth i roi wyneb newydd ar y ffordd o'r Hen Ysgol hyd at Dŷ Capel Isa a bydd yn mynd ar y rhaglen waith yn y dyfodol agos, oni bai i'r arian gael ei ddefnyddio ar gyfer materion brys pwysicach.
- ◇ Penderfynwyd y bydd ychydig o aelodau'n cyfarfod 21 Mai i ddechrau plannu blodau yn y bocsys ar y gylchfan, yn barod ar gyfer yr haf.
- ◇ Yn anffodus, ni fydd Wicksteed yn dechrau gosod yr offer newydd yng Nghae Nant tan yr wythnos sy'n dechrau 14 Mehefin. Mae hyn oherwydd problemau gyda'r cyflenwyr a phrinder dur.

**Diolch o galon unwaith eto i
bawb sydd wedi cyfrannu
erthyglau i'r rhifyn hwn.**



Professional and personal
Foot Care in the comfort
and privacy of your own
home.

Treatments Include:

- ✂ Corn/Callus Removal
- ✂ Diabetic Foot Care
- ✂ Nail Trimming
- ✂ Thickened Nails
- ✂ Athlete's Foot
- ✂ Fungal Nails
- ✂ Cracked Heels
- ✂ Ingrown Toe Nails
- ✂ Verrucae
- ✂ Foot Care Advice



MEMBER OF
THE SNAI INSTITUTE

Initial Assessment FREE

01824 735070

07387 583971

dyffrynfootcare@gmail.com

<http://dyffrynfootcare.com>

Dyffrynfootcare

@dyffrynfootcare

Cyngor Sir Ddinbych

Merfyn Parry

Manylion cyswllt:

Ffôn : 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook

